

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru (Memorandwm Rhif 3) ynghylch y Bil Troseddau Economaid a Thryloywder Corfforaethol

Mai 2023



1. Cefndir

Bil Troseddau Economaidd a Thryloywder Corfforaethol Llywodraeth y DU

1. Cafodd y Bil Troseddau Economaidd a Thryloywder Corfforaethol (y Bil) ei gyflwyno yn Nhŷ'r Cyffredin ar 22 Medi 2022 pan gafodd ei ddarllenid cyntaf. Noddir y Bil gan y Swyddfa Gartref.¹

2. Mae teitl hir y Bil yn nodi mai ei ddiben yw:

“Gwneud darpariaeth ynghylch troseddau economaidd a thryloywder corfforaethol; i wneud darpariaeth bellach ynghylch cwmnïau, partneriaethau cyfyngedig a mathau eraill o endid corfforaethol; ac i wneud darpariaeth ynghylch cofrestru endidau tramor.”

3. Pan gytunwyd ar ein hadroddiad, roedd y Bil yn y cyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Arglwyddi.

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru (Memorandwm Rhif 2)

4. Mae Rheolau Sefydlog 29.1 a 29.2 yn darparu ei bod yn ofynnol gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol pan fydd Bil perthnasol yn y DU yn gwneud darpariaeth o ran Cymru at unrhyw ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd neu sy'n addasu ei chymhwysedd deddfwriaethol.

5. Ar 29 Tachwedd 2022, gosododd Vaughan Gething AS, Gweinidog yr Economi, a Mick Antoniw AS, y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad (y Gweinidogion) Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol² (y Memorandwm) gerbron y Senedd mewn perthynas â'r Bil.

¹ [Bil Troseddau Economaidd a Thryloywder Corfforaethol](#), fel y'i cyflwynwyd (Bil 154)

² Llywodraeth Cymru, [Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Y Bil Troseddau Economaidd a Thryloywder Corfforaethol](#), Tachwedd 2022

6. Ar 3 Ionawr 2023, gosododd y Gweinidog Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) gerbron y Senedd³ o ganlyniad i welliannau a gyflwynwyd i'r Bil yn ystod y cyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Cyffredin.⁴
7. Cytunodd y Pwyllgor Busnes yn wreiddiol y dylai'r y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a Phwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig gyflwyno adroddiad ar y Memorandwm erbyn 2 Mawrth 2023.⁵ Ar ôl gosod Memorandwm Rhif 2, cafodd y dyddiad hwn ei ymestyn i 9 Mawrth 2023⁶ ac yna i 30 Mawrth 2023.⁷
8. Gosododd y Pwyllgor ei adroddiad ar y Memoranda hyn ar 9 Mawrth 2023.⁸

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru (Memorandwm Rhif 3)

9. Ar 9 Mawrth 2023, gosododd y Gweinidogion Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol arall (Memorandwm Rhif 3)⁹ wedi i welliannau Llywodraeth y DU gael eu derbyn yn y cyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Cyffredin.¹⁰
10. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylid cyflwyno'r adroddiad ar Femorandwm Rhif 3 erbyn 4 Mai 2023.¹¹
11. Ym Memorandwm Rhif 3, dywed y Gweinidog:

³ Llywodraeth Cymru, [Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol \(Rhif 2\) y Bil Troseddau Economaidd a Thryloywder Corfforaethol](https://senedd.cymru/media/wk3etky4/slcm-ld15581-w.pdf), Ionawr 2023

[illhttps://senedd.cymru/media/wk3etky4/slcm-ld15581-w.pdf](https://senedd.cymru/media/wk3etky4/slcm-ld15581-w.pdf)

⁴ [Y Bil Troseddau Economaidd a Thryloywder Corfforaethol Penderfyniadau'r Cyfnod Pwyllgor](#), Tachwedd 2022

⁵ Y Pwyllgor Busnes, [Amserlen i'w hystyried: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol \(Memorandwm Rhif 3\) ynghylch y Bil Troseddau Economaidd a Thryloywder Corfforaethol](#), Rhagfyr 2022

⁶ Y Pwyllgor Busnes, [Amserlen i'w hystyried: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol \(Rhif 3\) ynghylch y Bil Troseddau Economaidd a Thryloywder Corfforaethol](#), Ionawr 2023

⁷ Y Pwyllgor Busnes, [Amserlen ddiwygiedig i'w hystyried: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol \(Rhif 2\) ynghylch y Bil Troseddau Economaidd a Thryloywder Corfforaethol](#), Mawrth 2023

⁸ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, [Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru](#)

[ynghylch y Bil Troseddau Economaidd a Thryloywder Corfforaethol](#), Mawrth 2023

⁹ Llywodraeth Cymru, [Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol \(Memorandwm Rhif 3\) Y Bil Troseddau Economaidd a Thryloywder Corfforaethol](#), Mawrth 2023

¹⁰ [Y Bil Troseddau Economaidd a Thryloywder Corfforaethol fel y'i Diwygiwyd \(Penderfyniadau'r Cyfnod Adrodd\)](#), Ionawr 2023

¹¹ Y Pwyllgor Busnes, [Amserlen ar gyfer ystyried: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol \(Memorandwm Rhif 3\) ar Y Bil Troseddau Economaidd a Thryloywder Corfforaethol](#) Mawrth 2023

“Cyflwynwyd gwelliannau pellach gan y Llywodraeth ar 18 Ionawr cyn y Cyfnod Adrodd. Cyflwynwyd nifer o welliannau eraill nad oeddent yn rhai'r Llywodraeth i'r Bil hefyd. Ar 6 Chwefror, fe wnaethom ysgrifennu at y Llywydd yn cynghori y byddem yn ystyried holl welliannau'r Cyfnod Adrodd gyda'i gilydd, gyda'r bwriad o baratoi un LCM atodol ar gyfer unrhyw rai a oedd yn gofyn am hyn. Byddai hyn yn arwain at oedi cyn gosod yr LCM atodol hwn, ond byddai'n sicrhau ei fod yn adlewyrchu'n gywir ddatblygiad y Bil. Daeth y Cyfnod Adrodd i ben ar 25 Ionawr gyda holl welliannau'r Llywodraeth wedi cael eu derbyn a phob gwelliant nad oeddent yn rhai'r Llywodraeth wedi cael eu gwrthod.

Mae rhai o'r gwelliannau a dderbyniwyd yn diwygio Atodlen 7 i'r Bil, ac ystyriwyd bod rhai o'r darpariaethau ynddynt yn 'ddarpariaeth berthnasol ac o fewn cwmpas RhS 29 at ddiben yr LCM gwreiddiol a osodwyd mewn perthynas â'r Bil. Mae'r LCM atodol hwn (Memorandwm Rhif 3) yn nodi safbwynt Llywodraeth Cymru ar unrhyw gymalau a ychwanegwyd neu a ddiwygiwyd yn y Cyfnod Adrodd sy'n 'ddarpariaeth berthnasol' at ddibenion RhS 29.’”¹²

Y darpariaethau y mae angen cydsyniad ar eu cyfer

12. Mae'r Gweinidogion yn nodi'r gwelliannau a ganlyn i Atodlen 7 (Cryptoasedau: adfer sifil) i'r Bil a dderbyniwyd yn y Cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Cyffredin ac y mae angen cydsyniad ar eu cyfer:

- Pennod 3C – Fforffedu Cryptoasedau

Mae gwelliant 72 yn diwygio adran 303Z25 a fewnosodwyd yn *Neddf Enillion Troseddau 2002* (cryptoasedau: codau ymarfer) i ddarparu y gellir cyflawni camau rhagarweiniol penodol mewn perthynas â gwneud cod ymarfer o dan yr adran honno (er enghraifft, ymgynghori ar god ymarfer drafft) cyn i'r adran honno ddod i rym.¹³

¹² Memorandwm Rhif 3, paragraffau 5 a 6

¹³ Memorandwm Rhif 3, paragraff 15

- Pennod 3E – Fforffedu asedau crypto yn dilyn gorchymyn cadw neu rewi

O ganlyniad i welliannau 76 i 78, mae cryptoasedau a gedwir o dan unrhyw ddarpariaeth ym Mhennod 3C o Ran 5 o *Ddeddf Enillion Troseddau 2002*, (fforffedu cryptoasedau) (gan gynnwys o dan adran 303Z31 o'r Ddeddf honno) yn ddarostyngedig i fforffediad o dan adran 303Z31 o'r Ddeddf honno.¹⁴

- Rhan 2

O ganlyniad i welliannau 81 i 86, pan fo cryptoasedau yn cael eu cadw o dan adran 303Z31 o *Ddeddf Enillion Troseddau 2002* (atafaelu cryptoasedau) neu baragraff 10Z7AF o Atodlen 1 i *Ddeddf Gwrthderfysgaeth, Trosedd a Diogelwch 2001* (atafaelu cryptoasedau terfysgwyr) ac maent yn ddarostyngedig i gais am fforffedu, nid yw'r cryptoasedau hynny yn “eiddo rhydd” at ddibenion *Deddf Enillion Troseddau 2002*.

Mae gwelliant 87 yn cynnwys diwygiad canlyniadol i Ran 5 o *Ddeddf Enillion Troseddau 2002*. Mae'n mewnosod adran newydd 311A, sy'n cynnwys darpariaeth ynghylch ymchwilwyr ariannol achrededig yn gwneud ceisiadau neu apeliadau penodol mewn perthynas â Phenodau 3C i 3F y Rhan honno.¹⁵

- 13.** Yn achos yr holl welliannau y cyfeirir atynt ym mharagraff 12, dywed y Gweinidogion bod angen cydsyniad, oherwydd nid yw'r gwelliannau arfaethedig:

“...yn effeithio ar y cyngor cymhwysedd ... ar gyfer y ddarpariaeth wreiddiol a, gan fod y ddarpariaeth wreiddiol yn 'ddarpariaeth berthnasol' ac o fewn cwmpas RhS 29, mae angen cydsyniad ar gyfer y gwelliannau hyn.”¹⁶

Safbwynt Llywodraeth Cymru

- 14.** Dyma resymau'r Gweinidogion dros wneud y darpariaethau hyn yn y Bil:

“Mae'r Bil yn adeiladu ar y gwaith o amgylch Deddf Troseddau Economaidd (Tryloywder a Gorfodi) gychwynnol 2022, a gefnogir yn flaenorol gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y

¹⁴ Memorandwm Rhif 3, paragraff 19

¹⁵ Memorandwm Rhif 3, paragraffau 23 a 24

¹⁶ Memorandwm Rhif 3, paragraffau 16, 20 a 25

Cyfansoddiad yn dilyn ymosodiad Rwsia ar Wcráin. Bydd cynigion yn Rhan 4 o'r Bil yn mynd i'r afael â'r bygythiad cynyddol o gryptoasedau, sy'n cael eu defnyddio'n gynyddol i hwyluso ymosodiadau meddalwedd wystlo a gwyngalchu arian. Bydd y Bil yn diwygio pwerau yn POCA i alluogi ymchwilio, atafaelu ac adfer cryptoasedau yn well mewn achosion atafaelu troseddol ac adfer sifil.

Mae trafodaethau paratoadol gyda Llywodraeth y DU, ar lefel Weinidogol a swyddogol, a'r dadansoddi dilynol yn dangos bod y darpariaethau datganoledig dan sylw yn rhai technegol ac nad ydynt yn ddadleuol, ac felly mae'n briodol defnyddio'r Bil i wneud y ddarpariaeth hon yn hytrach na defnyddio Bil y Senedd.

Mae'r darpariaethau datganoledig dan sylw yn ymwneud â meysydd polisi ehangach a gedwir yn ôl. O ran cydsyniad Llywodraeth Cymru, mae hyn yn bennaf yn ymwneud â'r pwerau i atafaelu cryptoasedau yn gyflym ac yn haws, sef y prif gyfrwng a ddefnyddir ar gyfer meddalwedd wystlo sy'n cyd-fynd â'n polisiâu seiberddiogelwch.

Byddai gwneud y darpariaethau hyn yn fanteisiol am resymau cyffredin i sicrhau bod Economi Cymru yn cefnogi mesurau'n gadarn ac yn amgylchedd annymunol ar gyfer gwyngalchu arian, seiberdroseddu economaidd a gweithgarwch anghyfreithlon cysylltiedig arall.

Rydym wedi dangos i Dŷ'r Cwmnïau yn glir ein bod o blaid derbyn adnoddau priodol i weithredu'r newidiadau o amgylch ei gyfrifoldebau cynyddol o ganlyniad i weithredu'r Bil."¹⁷

15. Mae'r Gweinidogion yn argymhell bod y Senedd yn cefnogi'r cynigion ac yn rhoi ei chydsyniad.¹⁸

Safbwynt Llywodraeth y DU

16. Ym Memorandwm Rhif 3, dywed y Gweinidogion:

¹⁷ Memorandwm Rhif 3, paragraffau 28-32

¹⁸ Memorandwm Rhif 3, paragraff 36. Yn y Bil fel y'i cyflwynwyd yn Nhŷ'r Arglwyddi, cymalau 167 ac 168 yw cymalau 141 a 142.

Mae Llywodraeth y DU wedi dweud mai'r mesurau yn fersiwn wreiddiol y Bil sydd angen cydsyniad deddfwriaethol y Senedd yw'r darpariaethau sy'n ymwneud â chryptoasedau yn Rhan 4 o'r Bil. Mae Rhan 4 o'r Bil yn ymwneud â chymalau 141 a 142 (ac felly, Atodlenni 6 a 7 i'r Bil). Mae Llywodraeth y DU o'r farn y bydd y diwygiadau hyn i POCA angen cydsyniad deddfwriaethol oherwydd eu bod yn effeithio ar un o swyddogaethau Gweinidogion Cymru i bennu disgrifiad o ymchwilydd ariannol achrededig sy'n gallu arfer rhai o'r pwerau newydd hyn. Mae hyn yn cyd-fynd â'r LCM gwreiddiol. Mae hyn yn cyd-fynd â'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol gwreiddiol.

Mae Llywodraeth y DU wedi datgan mewn gohebiaeth eu bod 'ddim o'r farn bod y gwelliannau [gan y Llywodraeth] [a gyflwynwyd ar 18 Ionawr] yn cynnwys y broses Cydsyniad Deddfwriaethol'. Nid yw Llywodraeth y DU wedi rhoi manylion eu dadansoddiad, ac felly nid yw'n glir sut y daethpwyd i'r casgliad hwn. Nid yw'r gwelliannau arfaethedig yn effeithio ar y cyngor cymhwysedd ar gyfer fersiwn wreiddiol y Bil (y mae, yn unol â pharagraff 26 uchod, dadansoddiad Llywodraeth y DU yn cyd-fynd â'r LCM gwreiddiol). Mae'n iawn dod i'r casgliad, felly, bod angen cydsyniad ar gyfer gwelliannau i rannau o'r Bil a ystyriwyd yn 'ddarpariaeth berthnasol' ac o fewn cwmpas RhS 29 at ddibenion yr LCM gwreiddiol.'¹⁹

2. Trafodaeth y Pwyllgor

17. Gwnaethom drafod Memorandwm Rhif 3 yn ein cyfarfod ar 27 Mawrth 2023.²⁰ Cytunwyd ar ein hadroddiad ar 24 Ebrill 2023.²¹

Ein barn ni

18. Nodwn asesiad Llywodraeth Cymru o'r gwelliannau a wnaed i Atodlen 7 i'r Bil y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer, fel y'i nodir ym Memorandwm Rhif 3.

Casgliad 1. Rydym yn cytuno â'r Gweinidog fod darpariaethau diwygiedig yn Atodlen 7 i'r Bil, fel y'u nodwyd ym Memorandwm Rhif 3, yn dod o fewn diben

¹⁹ Memorandwm Rhif 3, paragraffau 26-27

²⁰ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 27 Mawrth 2023

²¹ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 24 Ebrill 2023

sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd fel y'i disgrifir yn Rheol Sefydlog 29, a bod angen cydsyniad y Senedd oherwydd hynny.